# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH,<br>14 GORFFENNAF, 2026 am 2.00 o'r gloch yp** | **TUESDAY,<br>14 JULY, 2026 at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THORUGH ZOOM** |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752518 | Committee Officer |
|---|---|---|

**ELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-
**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees, Margaret M Roberts, Sonia Williams **(Cadeirydd/Chair),** Sedd Wag/Vacant Seat

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Derek Owen, Liz Wood

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelod Unigol/Unaffiliated**

Douglas M Fowlie

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters) Parchedig/Reverend Llewelyn Moules-Jones - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Kathryn Seeney - (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Christina Williams - (Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fwy a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 22)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2026.

**YN CODI**

**Diweddariad ar wireddu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar Ynys Môn 2022/2026**

- Llythyr wedi ei anfon gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini at Mr Adam Price AS;
- Ymateb wedi ei dderbyn gan Mr Adam Price AS;
- Llythyr wedi ei anfon gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini at Mr Steve Reed AS;
- Ymateb wedi ei dderbyn ar ran Mr Steve Reed AS.

4 **CRAFFU PARTNERIAETH STRATEGOL - CYFOETH NATURIOL CYMRU** (Tudalennau 23 - 34)

Derbyn cyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

5 **CYNLLUN STRATEGOL TACLO TLODI** (Tudalennau 35 - 54)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

6 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2026/2027** (Tudalennau 55 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Sonia Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd).<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, G O Jones<br>Pip O'Neill, Dylan Rees.<br><br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg (ar gyfer eitemau 3, 4 a 5).<br><br>**Aelodau Cyfetholedig**<br><br>Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig),<br>Ms Kathryn Seeney - Rhiant Lywodraethwr (Sector Ysgolion Cynradd),<br>Ms Christina Williams - Rhiant Lywodraethwr (Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY). |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr,<br>Y Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Polisi a'r Gymraeg (FFO) (ar gyfer eitem 3),<br>Rheolwr y Sector (Cynradd) (OD) (ar gyfer eitem 4),<br>Rheolwr Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant (FEE) (ar gyfer eitem 5),<br>Arweinydd Strategol ADY, Cynhwysiant ac Ymgysylltu (OR) (ar gyfer eitem 5),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu'r Gwasanaeth Pwyllgorau (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr John Ifan Jones, Euryn Morris, Derek Owen a Margaret Murley Roberts.<br><br>Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo.<br><br>Y Parchedig Llewelyn Moules-Jones – Aelod Cyfetholedig (Yr Eglwys yng Nghymru). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion,<br>Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones - Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, |

Y Cynghorydd Gary Pritchard - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd,
Y Cynghorydd Ieuan Williams - Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd,
Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer.

---

Cydymdeimlodd y Cadeirydd yn ddwys â theulu'r Cynghorydd Ken Taylor a fu farw'n sydyn yn ddiweddar. Nododd bod y Cynghorydd Taylor yn aelod ymroddedig o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Rhoddwyd teyrnged i'r diweddar Gynghorydd Ken Taylor gan y Cynghorydd Gwilym O Jones, ei gyfaill a'i gyd-aelod ym Mro'r Llynnoedd. Dywedodd bod y Cynghorydd Ken Taylor bob amser yn barod i helpu pawb, a'i fod yn aelod ymroddgar o'r Cyngor ac yn frwd dros ei gymuned.

Cynhaliwyd munud o dawelwch gan Aelodau a Swyddogion.

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Fe wnaeth Mrs Christina Williams - Aelod Cyfetholedig - Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY ddatgan diddordeb personol ar gyfer Eitem 5 - Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant 2025/2026: Y Sefyllfa Gyfredol, Heriau a Chamau Nesaf, ac yn dilyn cyngor cyfreithiol, roedd yn gallu cymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais ddilynol.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2026;
- Cofnodion y cyfarfod i Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2026.

**Camau gweithredu'n codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2026:-**

- **Diweddariad ar wireddu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar Ynys Môn 2022/2026**

  - Bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth y DU ar ran y Cyngor yn amlinellu ei bryderon, a gofyn iddynt ailystyried y newidiadau diweddar i Gyllid Twf Lleol mewn perthynas â'r fformiwla i ddyrannu cyllid grant cyfalaf a refeniw yng Nghymru fydd yn cael effaith ar swyddi a gwasanaethu a ariennir gyda chyllid refeniw ar Ynys Môn.

    **Mae gohebiaeth wedi cael ei anfon dros e-bost at y Gweinidog Cabinet perthnasol - nid yw wedi ymateb eto.**

  - Bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru ar ran y Pwyllgor yn amlygu pryderon mewn perthynas ag eglurder a goblygiadau rôl y

Cydbwyllgorau Corfforedig mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ynghylch Cyllid Twf Lleol yn y dyfodol.

**Mae gohebiaeth wedi cael ei anfon dros e-bost at y Gweinidog Cabinet perthnasol - nid yw wedi ymateb eto.**

Dywedodd y Cynghorydd Douglas Fowlie ei fod wedi gofyn yn y cyfarfod ar 17 Mawrth, 2026 pe byddai modd symud y gwahoddiad i gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddyddiad cynharach ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth y bydd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi yn hytrach na fis Tachwedd.

## 3 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GYMRAEG 2025/2026

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried a chyflwyno sylwadau i'r Aelod Portffolio cyn iddo gael ei gymeradwyo ganddo dan bwerau dirprwyedig a'i gyhoeddi.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Gymraeg bod rhaid i'r Cyngor baratoi Adroddiad Blynyddol ar ei gydymffurfiaeth â'r Safonau yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwella'r ddarpariaeth iaith Gymraeg mewn meysydd lle mae'r ddarpariaeth yn anghyson h.y. Gwasanaethau Hamdden. Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg bod cwyn wedi'i derbyn ynglŷn â'r anghysondeb mewn dosbarth ffitrwydd mewn canolfan hamdden. Nododd bod Comisiynydd y Gymraeg wedi canfod methiant i gydymffurfio â'r safonau a bod camau gorfodi wedi cael eu cymryd. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r methiant ac rydym yn aros iddo gael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg. Dywedodd bod MônActif yn cynnig cyrsiau ffitrwydd ychwanegol yn y Canolfannau Hamdden a bod darpariaethau wedi'u targedu yn cael eu rhoi ar waith i gynyddu hyder staff er mwyn eu galluogi i gynnal cyrsiau ffitrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg bod y sector hamdden yn faes sydd angen ei adolygu o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg ac mae'r Cyngor yn cymryd camau rhagweithiol i gydweithio â phartneriaid i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.
- Gofynnwyd a fyddai'r Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg yn dod yn sesiynau mandadol i staff. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg bod y sesiwn Ymwybyddiaeth gyntaf wedi bod yn llwyddiannus, ac y bydd ychwaneg o sesiynau'n cael eu cynnal yn y dyfodol. Roedd yn derbyn bod angen hysbysebu'r sesiynau'n fwy eang ac annog siaradwyr Cymraeg i fynychu'r sesiynau hyn hefyd. Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg y dylid rhoi cyfle i bobl ddeall eu potensial fel siaradwyr Cymraeg. Nododd nad oes bwriad gwneud y cwrs yn un mandadol i staff, fodd bynnag mae pob aelod newydd yn cael sesiwn ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r sesiwn groeso fel eu bod yn ymwybodol o'r help a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddatblygu a gwella eu sgiliau iaith.

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod llythyr wedi cael ei anfon at Lywodraeth Cymru yn dilyn adolygu'r Polisi Iaith Gymraeg yn pwysleisio pwysigrwydd gwarchod enwau Cymraeg ar eiddo. Gofynnwyd a ddylid afon gohebiaeth bellach at Lywodraeth newydd Cymru. Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg bod yr ymateb gan Lywodraeth blaenorol Cymru wedi bod yn gefnogol, ond ni chyflwynwyd deddfwriaeth ychwanegol i alluogi Awdurdodau Lleol i warchod enwau lleoedd Cymraeg. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n fwy priodol anfon gohebiaeth at Lywodraeth Cymru yn dilyn toriad yr haf ac y dylid, o bosib, trafod ymrwymiad y Llywodraeth ynglŷn â'r mater hwn gyda'r Gweinidog Cabinet perthnasol.
- Gofynnwyd a yw'r gofynion iaith Gymraeg yn effeithio ar y broses recriwtio o fewn y Cyngor. Mewn ymateb dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg ei fod o'r farn bod yr Awdurdod yn llwyddo i ddenu unigolion i ymgeisio am swyddi gyda'r Cyngor oherwydd eu bod yn gallu gweithio mewn amgylchedd Gymraeg a chael cyfle i wella eu sgiliau iaith Cymraeg drwy fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Aeth ymlaen i ddweud bod rhaid i'r Cyngor ymateb i ddewis iaith trigolion pan maent y gofyn am wasanaeth gan y Cyngor. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod hi'n bwysig gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn nifer o rolau o fewn yr Awdurdod ynghyd â sicrhau bod trigolion a rhanddeiliaid yn gallu cyfathrebu â'r Cyngor yn eu hiaith ddewisol. Fodd bynnag, os ceir trafferth recriwtio i rai rolau penodol o fewn y Cyngor, rydym yn ystyried gofynion y swydd gan ei bod hi'n bwysig denu staff profiadol i'r rolau hyn.

Roedd yr Is-gadeirydd yn dymuno diolch i'r Swyddogion a oedd ynghlwm â'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn yn ddiweddar.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2025 i 2026;**
- **Nodi ei gynnwys ac anfon sylwadau'r pwyllgor sgriwtini at yr Aelod Portffolio er mwyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyedig gan yr aelod portffolio a'i gyhoeddi.**

## 4 ADRODDIAD CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG (CSGA) 2025/2026

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg mai pwrpas yr adroddiad yw darparu diweddariad blynyddol ar y cynnydd yn gysylltiedig â Chynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg.

Adroddodd yr Uwch Reolwr (Cynradd) bod yr adroddiad yn crynhoi perfformiad CSGC Ynys Môn yn ystod 2025/26 a'i fod yn amlygu'r prif ddatblygiadau, risgiau a chamau nesaf. Mae'r adroddiad yn amlygu'r defnydd effeithiol o gyllid i gynnal y canolfannau iaith a gwella'r cyswllt ag ysgolion uwchradd, y gefnogaeth i geisiadau grant 'capasiti'r gweithlu' a'r bartneriaeth â Choleg Menai i fodelu a datblygu addysgeg ddwyieithog. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at y cynnydd mewn

gweithgareddau datblygu e.e. Taith i Iaith, grwpiau prosiect CSGA mewn ysgolion, a chydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Gall unrhyw newid posibl i'r grant ar ôl 2026 beryglu parhad y ddarpariaeth yn enwedig y canolfannau iaith a chefnogaeth yn yr uwchradd. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y cynnydd mewn costau Trafnidiaeth, a'r goblygiadau ariannol ac o ran ôl troed carbon, a diffyg datrysiad hirdymor i leihau costau. Mae hefyd yn cyfeirio at yr heriau recriwtio/hyfedredd iaith a'r risg nad yw'r trefniadau yn yruwchradd yn cynyddu nifer y disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at y risgiau a mesurau lliniaru a nodwyd yn yr adroddiad ac yn benodol yr heriau'n gysylltiedig â chostau Trafnidiaeth. Holwyd ynglyn â'r feddalwedd a ddefnyddir i leihau costau, a nodwyd bod angen trafod y costau hyn yn fanylach yn yr adroddiad. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg bod y gwaith modelu trafnidiaeth yn mynd rhagddo, fodd bynnag rhaid darparu trafnidiaeth i'r ddwy ganolfan iaith ac mae hyn yn gostus. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Cynradd) bod datrysiadau'n cael eu hystyried a'u cyflwyno er mwyn lleihau costau trafnidiaeth bob blwyddyn ond nododd mai'r flaenoriaeth yw sicrhau bod y disgyblion yn cael eu trochi. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r costau trafnidiaeth manwl yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2026/27.
- Gofynnwyd pam bod mwy yn cofrestru ar y cwrs TGAU Cymraeg Ail Iaith. Mewn ymateb dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Gymraeg bod modd i ddisgyblion ddewis eu cwrs iaith, a bod rhai'n meddwl y byddant yn cael gwell gradd drwy sefyll yr arholiad TGAU ail iaith. Dywedodd bod cynlluniau ar waith i annog mwy o ddisgyblion i ddewis y cwrs Cymraeg iaith gyntaf. Fodd bynnag, bydd newidiadau'n cael eu cyflwyno yn ystod y ddwy flynedd nesaf a bydd yr arholiadau Iaith a Llenyddiaeth yn cael eu cyfuno i greu un cymhwyster TGAU ar gyfer disgyblion mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Bydd y cwrs TGAU ail iaith yn cael ei ddileu a bydd cwrs TGAU newydd yn cael ei greu ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion Saesneg. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Cynradd) bod un ysgol yn bwriadu newid ei chategori iaith a'r gobaith yw y bydd hyn yn effeithio ar nifer y plant sy'n dewis y cwrs Cymraeg Iaith Gyntaf. Holwyd a yw gallu'r disgyblion yn cael ei danseilio a'u bod yn cael eu hannog i sefyll eu harholiadau TGAU yn Saesneg rhag ofn iddynt gael gradd is. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod disgyblion yn cael dewis cwblhau cyrsiau TGAU yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Fodd bynnag, mae mwy o blant yn y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Caergybi a'r gobaith yw y bydd y disgyblion hyn yn fwy hyderus i ddilyn cyrsiau TGAU Cymraeg ymhen dwy flynedd.
- Mae'r adroddiad yn nodi'r orddibyniaeth ar gyllid grant. Gofynnwyd a yw'r canolfannau iaith dan fygythiad yn sgil y risgiau'n gysylltiedig ag arian grant. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg bod y ddibyniaeth ar arian grant yn risg, ac y byddai'n well pe byddai'r cyllid yn rhan o'r setliad blynyddol gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol. Nododd ei fod yn gobeithio y bydd y Llywodraeth newydd yn gwerthfawrogi gwaith y canolfannau iaith ac y bydd yn fodlon parhau i'w hariannu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r cyllid yn cael ei

ddyrannu am gyfnod o dair blynedd gan fod y grant blynyddol yn peri ansicrwydd.

- Cyfeiriwyd at y diffyg adnoddau ar gyfer cyrsiau Lefel A y mae disgyblion yn dymuno'u dilyn drwy gyfrwng y Gymraeg a nodwyd bod rhaid i athrawon eu cyfieithu. Gofynnwyd a fyddai modd pwyso ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod adroddau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnwyd sut mae'r Cyngor yn annog disgyblion i ddilyn cyrsiau Cymraeg. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg ei fod yn fodlon anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn nodi y dylai cyrsiau Lefel A fod ar gael yn Gymraeg.
- Cyfeiriwyd at Ysgol Uwchradd Caergybi sydd yn ysgol categori T3 ar hyn o bryd. Gofynnwyd a yw'n bosib i'r ysgol gyrraedd Categori 3 fel pob ysgol uwchradd arall ar yr Ynys. Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod yr ysgol wedi derbyn cyllid grant i gydweithio â'r Brifysgol i ddarparu cymorth proffesiynol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Nododd bod y Llywodraethwyr a'r Ysgol yn ceisio cyrraedd y nod fel bod yr ysgol yn yr un categori â phob ysgol arall ar Ynys Môn. Holwyd ynglyn â'r trafferthion yn gysylltiedig â sicrhau cyllid grant i alluogi Ysgol Uwchradd Caergybi ddod yn ysgol Gymraeg Categori 3 a p'un a oes Cynllun Strategol ar waith er mwyn cyrraedd Categori 3 cyn agor yr ysgol newydd yng Nghaergybi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bob cyllid grant bob amser yn heriol. Nododd bod gwaith ar y gweill gan Gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Caergybi i fynd i'r afael â'r risgiau a all godi a chyflwyno prosesau lliniaru ar gyfer yr ysgol er mwyn ei galluogi i gyrraedd Categori 3.
- Holwyd ynglyn â'r cymorth y mae dwy ysgol gynradd yn nalgylch Caergybi yn ei dderbyn o ran y Gymraeg. Holwyd ynglyn â'r cymorth sydd ar gael i ysgolion cynradd eraill. Mewn ymateb dywedodd yr Uwch Reolwr (Cynradd) bod dwy ysgol gynradd yn nalgylch Caergybi yn derbyn cefnogaeth gan y Canolfannau Iaith. Nododd bod modd i unrhyw ysgol ofyn am gymorth ychwanegol gyda'r Gymraeg yn ogystal â chefnogaeth i'r gweithlu er mwyn cynyddu eu hyder staff. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol, sef Dysgu, i gefnogi datblygiad proffesiynol yn cynnwys hyrwyddo'r Gymraeg.

**PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) Ynys Môn: 2025/2026.**

**5 GWASANAETH ADY A CHYNHWYSIANT 2025/2026: Y SEFYLLFA BRESENNOL, HERIAU A CHAMAU NESAF**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg mai pwrpas yr adroddiad yw darparu sicrwydd a throsolwg o berfformiad presennol y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant. Nododd bod y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant wedi cael ei sefydlu ym mis Mai 2017, fel gwasanaeth ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Bydd y contract presennol gyda Chyngor Gwynedd yn dod i ben ar 31 Awst 2026 ac mae proses ymgynghori wedi cael ei chynnal yn ddiweddar ar strwythur y gwasanaeth yn yr Awdurdod hwn.

Adroddodd Uwch Reolwr y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant bod cyfnod pontio ar waith i baratoi'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth ADY a Chynhwysiant newydd ar gyfer Ynys Môn o fis Medi 2026 ymlaen. Nododd bod yr adroddiad yn trafod y flwyddyn flaenorol, a bod fformiwla cyllido newydd wedi cael ei gyflwyno yn y sector cynradd ar gyfer y Gwasanaeth ADY. Mae systemau ar waith i fonitro ansawdd mewn ysgolion ac mae ysgolion yn hunanwerthuso eu darpariaeth. Amlygodd yr heriau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu a'r cynnydd yn y galw am wasanaeth ers y pandemig. Mae llwyth gwaith Cydlynwyr y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant wedi cynyddu mewn ysgolion; ac mae cyllid yn her genedlaethol o fewn y gwasanaeth. Mae recriwtio staff proffesiynol hefyd yn her. Aeth ymlaen i ddweud bod hwb addysg wedi cael ei sefydlu yn y pum ysgol uwchradd ar Ynys Môn ers diwedd 2021, mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Plant. Mae'r hybiau hyn yn cefnogi disgyblion ym mlwyddyn 10 ac 11 yn bennaf sy'n cael trafferth ymdopi ag addysg prif lif. Comisiynwyd adolygiad o'r model hwn ym mis Rhagfyr 2023, a nodwyd cryfderau yn enwedig y gwaith integredig/amlasiantaeth sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae cydweithio agos hefyd ynglyn â dysgwyr sy'n anodd eu lleoli oherwydd anghenion emosiynol ac ymddygiad cymhleth. Cyfeiriodd at y ffaith bod presenoldeb yn bryder cenedlaethol. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei gwblhau i wella presenoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae oriau lles ychwanegol wedi cael eu dyrannu drwy Grant Presenoldeb Llywodraeth Cymru i dargedu unigolion penodol mewn ysgolion.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at yr heriau'n gysylltiedig â hyfforddi a recriwtio Seicolegwyr Addysg a Swyddogion Cymorth sydd wedi bod yn broblem ers blynyddoedd. Dywedodd y Prif Weithredwr bod prosesau TUPE ar waith er mwyn trosglwyddo staff o'r ddarpariaeth bresennol rhwng yr Awdurdod hwn a Chyngor Gwynedd. Dywedodd yr Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant bod Prifysgol Caerdydd yn cynnig cwrs i hyfforddi Seicolegwyr Addysg a bod trafodaethau ar y gweill gyda Phrifysgol Bangor ar y posibilrwydd o gynnig cwrs o'r fath ym Mangor. Nododd ei bod hi'n anodd recriwtio seicolegwyr addysg Cymraeg. Gofynnwyd a fyddai modd parau i gydweithio â Chyngor Gwynedd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd yr Awdurdod yn cydweithio ag awdurdodau eraill yng ngogledd Cymru.
- Holwyd ynglyn â strategaeth hirdymor yr Awdurdod i leihau'r ddibyniaeth ar Ganolfan Addysg y Bont, Llangefni a sut mae'r Awdurdod yn sicrhau bod y cynnydd yn y galw yn gynaliadwy yn ariannol heb danseilio ansawdd y ddarpariaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mai'r brif flaenoriaeth ar hyn o bryd yw cynllunio'r gwasanaeth o fis Medi 2026 ymlaen. Dywedodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer ADY, Cynhwysiant ac Ymgysylltu bod heriau o ran sicrhau parhad yn y gwasanaeth, a bod plant yn ganolog i'r ddarpariaeth.
- Nodwyd nad yw rhieni'n ymwybodol o'r ddarpariaeth a fydd ar gael pan fydd y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant newydd yn cael ei gyflwyno ym mis Medi. Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc nad yw'n briodol rhannu gwybodaeth â rhieni ar hyn o bryd gan fod yr ymgynghoriad TUPE yn mynd rhagddo. Byddwn yn cyfathrebu â rhieni yn dilyn yr ymgynghoriad TUPE. Aeth ymlaen i ddweud bod ysgolion a'u Cyrff

Llywodraethol yn ymwybodol o'r newid yn y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant. Nodwyd y dylid cyflogi unigolion â phrofiad o blant ag anghenion ADY. Er bod y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn cydnabod bod profiad o blant ag ADY yn fanteisiol, dywedodd bod rhaid i staff gwrdd â'r meini prawf hanfodol a meddu ar gymwysterau yn y maes ADY.

- Holwyd ynglyn â llwyth gwaith y Cydlynwyr ADY a Swyddogion Lles a'r pwysau sydd arnynt mewn ysgolion. Dywedodd yr Arweinydd Strategol ADY, Cynhwysiant ac Ymgysylltu bod gwaith y Cydlynwyr ADY a Swyddogion Lles yn hanfodol yn y sector cynradd er mwyn paratoi disgyblion sy'n symud i'r sector uwchradd. Nododd bod strwythur staffio wedi cael ei sefydlu a'i ariannu ar gyfer y gwasanaeth newydd ym mis Medi 2026.
- Gofynnwyd a fydd yr her o ran recriwtio Seicolegwyr Addysg Cymraeg yn cael effaith ar y gwasanaeth newydd a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2026. Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod recriwtio Seicolegwyr Addysg Cymraeg yn her genedlaethol a bod trafodaethau ar y gweill gyda Chyngor Gwynedd ynglyn â chydweithio, ond ni ellir ymhelaethu ar hyn ymhellach ar hyn o bryd oherwydd yr ymgynghoriad TUPE sy'n mynd rhagddo.
- Cyfeiriwyd at yr heriau'n gysylltiedig â chyllido'r gwasanaeth ADY ac awgrymwyd y dylid gofyn i Arweinydd y Cyngor geisio cael cefnogaeth CLILC i bwyso ar Lywodraeth Cymru i ariannu'r gwasanaeth yn ddigonol. Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi codi'r problemau'n gysylltiedig ag ariannu'r gwasanaeth ADY cyn i Mr Rhun ap Iorwerth AS gael ei benodi'n Brif weinidog Cymru. Aeth ymlaen i ddweud bod y Pwyllgor Gwaith wedi dyrannu £300k o gyllid ychwanegol i ariannu'r ddarpariaeth ADY.
- Cyfeiriwyd at y ffigyrau presenoldeb cyfredol ar Ynys Môn, sydd oddeutu 90%. Gofynnwyd a yw'r data'n cynnwys dysgwyr ADY. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bob y data'n cynnwys pob disgybl ar yr Ynys. Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod gan y Cyngor Hybiau mewn ysgolion uwchradd, a bod y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i ariannu 'ysgolion rhithwir' i gefnogi lles a phlant ag ADY sy'n derbyn gofal.
- Cyfeiriwyd at y staff Cymorth Addysg a nodwyd y dylid cofio amdanynt hwy yn ystod y cyfnod pontio i'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant newydd a'i bod hi'n bwysig cadw'r staff yma a pheidio â rhoi pwysau ychwanegol arnynt. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y dylid cynnwys y cyllid ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y setliad blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na fel grant blynyddol.
- Cwestiynwyd sut mae'r Awdurdod yn bwriadu rhoi sicrwydd i Ddefnyddwyr Gwasanaeth, Rhieni a Gofalwyr y bydd eu llais yn cael ei glywed o fewn y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mai'r brif flaenoriaeth ar hyn o bryd yw parhad y gwasanaeth o fis Medi 2026 ymlaen, ac mai un o'r prif agweddau yw gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad ar y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant 2025/2026.**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2026/2027

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn manylu ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2026/2027.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen rhaglen waith ar gyfer 2026/2027;**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.**

**Y CYNGHORYDD SONIA WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Sonia Williams**
**Cynghorydd – Councillor**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn/Tel: (01248) 750057

E-Bost / E-mail:
soniawilliams2@ynysmon.llyw.cymru

Adam Price AS,
Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni,
Llywodraeth Cymru,
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd,
CF99 1NA

Anfonwyd drwy ebost / Sent via email:
Gohebiaeth.Adam.Price@llyw.cymru

21/05/2026

Annwyl Weinidog,

**Ynglŷn â: Ynglŷn â: Cyllid Twf Lleol – Eglurder ynglŷn â Rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y dyfodol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau**

Ysgrifennaf yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yng Nghyngor Sir Ynys Môn i dynnu sylw at bryderon ynghylch eglurder a goblygiadau rôl gwneud penderfyniadau arfaethedig y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y dyfodol mewn perthynas â'r Gronfa Twf Lleol.

Er ein bod yn cydnabod y bwriad i gryfhau cydweithio rhanbarthol, rydym yn parhau i bryderu ynghylch parodrwydd, capasiti a gallu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ysgwyddo rôl mor strategol bwysig o fewn yr amserlenni arfaethedig. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sefydlwyd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol gyda thair swyddogaeth graidd statudol:

1. Cynllunio Datblygu Strategol.
2. Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol.
3. Hyrwyddo neu wella llesiant economaidd eu hardal.

Swyddogaethau strategol yw'r rhain, ac yn wreiddiol, ni ddyluniwyd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol i dderbyn cyfrifoldeb gweithredol a gweinyddol am raglen ariannu sylweddol tebyg i'r Gronfa Twf Lleol. Eu cyfrifoldeb statudol yw darparu cyfeiriad strategol ar lefel ranbarthol, nid gweithredu fel corff cyflawni. Mae ehangu eu rôl i gynnwys rheoli rhaglenni, arfarnu prosiectau a throsolwg gweithredol yn gwyro'n sylweddol o'r pwrpas a fwriadwyd wrth eu creu.

Dear Minister,

**Re: Local Growth Funding – Clarity on the Future Decision Making Role of Corporate Joint Committees (CJCs)**

I am writing in my capacity as Chair of the Partnership and Regeneration Scrutiny Committee at the Isle of Anglesey County Council to highlight concerns regarding the clarity and implications of the proposed future decision-making role of Corporate Joint Committees (CJCs) in relation to the Local Growth Fund (LGF).

While we recognise the intention to strengthen regional collaboration, we remain concerned about the readiness, capacity, and capability of CJCs to take on such a strategically important role within the proposed timescales. Under the Local Government and Elections (Wales) Act 2021, CJCs were established with three core statutory functions:

1. Strategic Development Planning.
2. Regional Transport Planning.
3. Promoting or improving the economic well-being of their area.

These functions are strategic in nature, and CJCs were not originally designed to take on the operational and administrative responsibility for a major funding programme such as the Local Growth Fund. Their statutory remit is to provide regional strategic direction, not to act as a delivery body. Expanding their role to include programme management, project appraisal, and operational oversight represents a significant shift from the purpose for which they were created.

Rydym yn llwyr gefnogi gweledigaeth y Gronfa Twf Lleol i yrru twf cynhwysol, gwella cynhyrchiant, cryfhau sgiliau a mynd i'r afael â gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol ledled Cymru, ac yn hynny o beth, mae'n asio'n dda â nodau ac amcanion Cynllun y Cyngor 2023 – 2028. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r nodau hyn mae angen trefniadau cydlynol, sefydlog ac wedi'u llywio'n lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflawni. Mae uchelgeisiau'r Gronfa Twf Lleol yn ddibynnol iawn ar barhad, gwybodaeth leol a'r gallu i ddylunio ymyraethau aml-flwyddyn sy'n ymateb i anghenion penodol cymunedau lleol – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ynysoedd fel Ynys Môn.

Rydym yn pryderu, felly, am oblygiadau strwythur tair blynedd y rhaglen. O dan y cynnig presennol, byddai cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau'n symud i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig o Flwyddyn 2 ymlaen. Yn ymarferol, mae hyn yn creu rhaglen flwyddyn wedi'i dilyn gan raglen ddwy flynedd ar wahân mewn gwirionedd, yn hytrach na chylch tair blynedd gydlynol.

Gyda'r dull hwn mae perygl o wastraffu adnoddau ac amser, gan y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol gynllunio a rhoi prosiectau ar waith ar gyfer Blwyddyn 1 heb unrhyw sicrwydd y byddai'r prosiectau hynny'n parhau ym Mlwyddyn 2 a 3. Mae ansicrwydd o'r fath yn tanseilio'r gallu i ddylunio ymyraethau aml-flwyddyn, cadw staff neu gynnal momentwm o ran cyflawni prosiectau. Byddai'n anodd iawn hefyd i bartneriaid cyflawni a chymunedau gynllunio ar gyfer yr hirdymor.

Un pryder penodol sydd gennym yw'r posibilrwydd nad yw'r model Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn addas, neu'n ddigon ystwyth a chwim i reoli prosiectau llai, lleol. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforaethol wedi'u strwythuro ar gyfer cynlluniau mawr ac mae risg gwirioneddol y gallai ymyraethau lleol - sydd yn aml yn cael yr effaith fwyaf mewn cymunedau gwledig ac ynysoedd – gael eu gohirio neu eu dad-flaenoriaethu.

Mae'r Cyngor yn gefnogwr brwd o ddull cyflawni lleol, gan adeiladu ar y model llwyddiannus a sefydlwyd trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Awdurdodau Lleol sydd â'r wybodaeth leol, y cysylltiadau a'r capasiti gweithredol sydd ei angen i gyflawni'n effeithiol ac yn atebol ar gyflymder. Mae'r holl gyflawni'n digwydd yn lleol ac mae sicrhau fod cyflawni lleol yn parhau'n ganolog yn hanfodol er mwyn cyflawni uchelgeisiau ehangach y Gronfa Twf Lleol mewn perthynas â thwf cynhwysol, sgiliau a gwytnwch cymunedol.

We fully support the vision of the Local Growth Fund to drive inclusive growth, improve productivity, strengthen skills, and address socio-economic disparities across Wales, in itself, aligning well with the aims and objectives of the Council Plan 2023 - 2028. However, achieving these aims requires coherent, stable, and locally informed decision making and delivery arrangements. The LGF's ambitions depend heavily on continuity, local intelligence, and the ability to design multi-year interventions that respond to the specific local needs of communities — particularly in rural and island areas such as Anglesey.

We are therefore concerned about the implications of the three-year programme structure. As currently proposed, responsibility for decision-making would shift to CJCs from Year 2 onwards. In practice, this effectively creates a one-year programme followed by a separate two-year programme, rather than a coherent three-year cycle.

This approach risks wasting resources and time, as local authorities would be required to plan and mobilise projects for Year 1 without any certainty that these projects could continue into Years 2 and 3. Such uncertainty undermines the ability to design multi-year interventions, retain staff, or maintain delivery momentum. It also makes long-term planning extremely difficult for delivery partners and communities.

We are particularly concerned that the CJC model may not be well suited, or sufficiently agile and fleet-of-foot, to manage smaller, locally focused projects. CJCs are structured for large-scale schemes, and there is a real risk that local interventions — often the most impactful in rural and island communities — could be delayed or deprioritised.

The Council strongly supports a locally led approach to delivery, building on the successful model established through the Shared Prosperity Fund. Local authorities hold the local intelligence, relationships, and operational capacity needed to deliver effectively and accountably at pace. All delivery is local and ensuring that local delivery remains central is critical to achieving the LGF's wider ambitions around inclusive growth, skills, and community resilience.

Rydym yn gofyn, felly, am arweiniad eglur gan Lywodraeth Cymru ynghylch rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y dyfodol, gan gynnwys sut fydd ymwneud ac atebolrwydd awdurdodau lleol yn cael eu gwarchod yn y dyfodol a sut fydd gweledigaeth y Gronfa Twf Lleol yn cael ei diogelu trwy drefniadau cyflawni sefydlog sy'n cael eu llywio'n lleol. Er mwyn bod yn dryloyw, hoffwn nodi hefyd fod y Pwyllgor yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU mewn perthynas â phryderon ynglŷn â'r fformiwla cyllido cyfalaf/refeniw ar gyfer Cymru. Gellir darparu copi o'r llythyr hwnnw pe bai o ddefnydd.

Byddem yn croesawu trafodaeth bellach â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau fod trefniadau llywodraethu a chyflawni ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yn gadarn a chymesur a'u bod yn adlewyrchu anghenion lleol.

We therefore request clear guidance from Welsh Government on the future role of CJCs, including how local authority involvement and accountability will be protected, and how the LGF's vision will be safeguarded through stable, locally informed delivery arrangements.
For transparency, I also wish to note that the Committee is writing separately to the UK Government regarding concerns about the capital/revenue funding formula for Wales. A copy of that letter can be provided should this be helpful.

We would welcome further engagement with Welsh Government to ensure that the governance and delivery arrangements for the Local Growth Fund are robust, proportionate, and reflective of local needs.

Yn gywir / Yours sincerely,

**Cyng. / Cllr. Sonia Williams**
